



Inspecting policing
in the public interest

**Pennu Gwerth yr Heddlu:
Adolygiad o Barodrwydd**

**Heddlu De Cymru
Gorffennaf 2011**

Diben yr adolygiad

Mae Gwasanaeth yr Heddlu, ynghyd â phob rhan arall o'r sector cyhoeddus, yn wynebu ei her ariannol fwyaf ers cenhedlaeth. Gellid ystyried naill ai bod hwn yn gyfle i arloesi ac adfywio – neu'n rheswm i barhau fel y mae pethau a gweld y gwasanaethau'n torri'n ôl.

Bu Arolygiaeth Cwnstabiliaeth Ei Mawrhydi (HMIC) yn ymwneud yn helaeth â monitro ymateb y Gwasanaeth a'i barodrwydd am gwtogi ar droseddu a lleihau costau ar yr un pryd. Yn rhan o hyn, aethom ati yng Ngwanwyn 2011 i arolygu pob un o'r 43 o heddluoedd ac awdurdodau yng Nghymru a Lloegr, er mwyn asesu:

- sut maent yn bwriadu ateb yr her ariannol; a
- beth fydd yr effaith ar y gwasanaeth a ddarparant i'r cyhoedd.

Yn yr adroddiad hwn, crynhoir y canfyddiadau ar gyfer Heddlu De Cymru. Mae adroddiad thematig, *Adapting to Austerity*, sy'n cyfuno canfyddiadau'r 43 o heddluoedd i gyd, ar gael hefyd o www.hmic.gov.uk.

Canfyddiadau ar gyfer Heddlu De Cymru

Beth yw'r her ariannol yn De Cymru?

Mae Heddlu De Cymru ac Awdurdod Heddlu De Cymru yn adrodd eu bod yn wynebu gostyngiad arian parod o £ 31.5m at eu cyllideb dros bedair blynedd y cyfnod adolygiad cynhwysfawr o wariant (2011/12-14/15). Mewn termau real (hy pan mae chwyddiant yn cael ei ystyried), mae hyn yn cyfateb i 10 y cant o'u gwariant refeniw gros.

A yw'r heddlu a'r awdurdod yn barod i ateb yr her ariannol hon?

Bu'r heddlu a'r awdurdod eisoes yn gweithio ar raglen newid fawr a hynny ers dwy flynedd bellach. Roeddent yn amlwg yn deall cymaint o her sy'n eu hwynebu, ac maent wedi ystyried ystod gyfan o ddewisiadau wrth ddatblygu cynllun manwl, sydd wedi'i gostio'n dda, i fynd i'r afael â'r her honno.

Roedd yr heddlu'n bwriadu gwneud arbedion drwy ddefnyddio cyfuniad o ailgynllunio ei fusnes, a gwneud prosesau'n fwy effeithlon. Roedd ei gynllun yn cynnwys lleihau niferoedd swyddogion yr heddlu a staff yr heddlu, a newidiadau i waith sifft.

Amcangyfrifodd yr heddlu a'r awdurdod y bydd y mesurau a amlinellwyd yn eu cynllun yn fwy na digon i fynd i'r afael â'r bwlch cyllid. Roeddent hefyd yn ystyried cydweithio â heddluoedd eraill yng Nghymru, er mwyn cyflawni arbedion maint (er nad oedd eu cynllun yn dibynnu'n uniongyrchol ar arbedion o'r dull hwn).

Beth fydd yr effaith ar nifer staff a swyddogion yr heddlu?

Roedd Heddlu De Cymru yn bwriadu gwneud y newidiadau canlynol i niferoedd ei weithlu.

	Swyddogion yr Heddlu	Staff yr Heddlu	Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu
31 Mawrth 2010 (gwirioneddol)	3,148	1,810	335
31 Mawrth 2015 (arfaethedig)	2,753	1,590	325

Ffigurau mis Mawrth 2010 a ddefnyddiwyd yn fan cychwyn, gan fod rhan fwyaf o wasanaethau heddlu wedi dechrau rhewi recriwtio yn y flwyddyn honno, a niferoedd y gweithlu wedi dechrau gostwng o ganlyniad. Cafodd y ffigurau arfaethedig a ddangosir ar gyfer Mawrth 2015 eu darparu i HMIC gan yr heddlu ym mis Mehefin 2011.

Bydd cynlluniau'r heddlu a'r awdurdod ar gyfer y gweithlu yn parhau i gael eu mireinio wrth i'r rhaglen newid fynd yn ei blaen.

Beth fydd yr effaith ar y gwasanaeth i'r cyhoedd?

Mae gan yr heddlu a'r awdurdod weledigaeth glir ar gyfer plismona De Cymru dros y pedair blynedd nesaf, sef: 'Bod y gorau o ran deall anghenion ein cymunedau ac ymateb iddynt.' Roedd yr awdurdod yn benderfynol ei bod yn rhaid gwella neu gynnal perfformiad drwy gydol amgylchiadau ariannol heriol. Nod yr heddlu oedd lleihau cymaint â phosibl effaith y toriadau ar y cyhoedd a rhanddeiliaid, ac mae wedi rhoi strategaeth gynhwysfawr ar waith i egluro goblygiadau'r newidiadau i'w gymunedau lleol.

Roeddent yn deall sut byddai pob un o'u dulliau dethol o wneud toriadau ariannol yn effeithio ar gyflenwi gwasanaeth dros gyfnod y pedair blynedd. Mae ymgynghoriad cyhoeddus lleol wedi digwydd ac roedd tystiolaeth bod hwn wedi dylanwadu ar gynnwys y cynllun.

A oes gan yr heddlu dargedau i gwtogi ar droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol?

Tasg gyntaf yr heddlu yw cwtogi ar droseddu a chadw'r heddwch; yn 2010, dywedodd Theresa May, yr Ysgrifennydd Cartref, ei bod yn disgwyl i heddluoedd ac awdurdodau wneud toriadau ariannol ond parhau i gwtogi ar droseddu a hynny heb niweidio'r rheng flaen.

Mae *Cynllun Plismona De Cymru*'n cynnwys amcanion ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol a chwtogi ar droseddu yn y flwyddyn nesaf.

